

CANLLAWIAU AMSERLENNU ARHOLIADAU

I'w darllen ochr yn ochr â Llawlyfr Arholiadau'r Brifysgol <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/exam-handbook/>

1. Bod ar gael yn ystod cyfnodau'r arholiadau

- Cyngorir myfyrwyr amser llawn i fod yn Aberystwyth yn ystod cyfnod bras dyddiadau arholiadau semester un a semester dau: <https://www.aber.ac.uk/cy/dates-of-term/>
- Os na all myfyrwyr fod yn bresennol mewn arholiad, rhaid rhoi gwybod i swyddog arholiadau'r adran cyn gynted â phosibl: <https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/exam-officers/>
- Os oes gan fyfyrwyr drafferthion hygrychedd, dylent gysylltu â swyddog arholiadau'r adran i gael arweiniad: <https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/exam-officers/>

2. Dyddiadau cyhoeddi'r amserlen arholiadau

- Cyhoeddir amserlenni terfynol arholiadau semester un a semester dau ar y wefan Amserlenni tua phedair i chwe wythnos cyn dyddiad dechrau'r cyfnod arholi perthnasol. Bydd y dyddiadau terfynol i'w gweld hefyd ar galendrau personol y myfyrwyr.
- Bydd fersiwn dros dro o'r amserlen i'w chael tua phythefnos cyn cyhoeddi'r amserlen derfynol. Pan fydd yr amserlen dros dro yn barod, bydd gan fyfyrwyr ac adrannau wythnos o leiaf i roi gwybod am unrhyw wrthdaro.
- Cyngorir myfyrwyr i osgoi gwneud trefniadau pendant, er enghraifft cynlluniau teithio, yn seiliedig ar yr amserlen dros dro, am y gallai rhai o'r dyddiadau newid.
- Ni fydd gwybodaeth am asesiadau amgen yn cael ei chynnwys ar amserlenni'r arholiadau. Bydd myfyrwyr sy'n cymryd asesiadau amgen yn cael cyfarwyddyd penodol ynglŷn â'r asesiadau hyn gan eu hadrannau academaidd. Os oes angen, gwneir yn sicr na fydd dyddiadau cyflwyno'r asesiadau amgen yn dod ar yr un pryd.
- Bydd myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau ar-lein yn cael cyfarwyddyd penodol gan eu hadrannau academaidd am unrhyw drefniadau arbennig, er enghraifft os oes gan rai arholiadau ar-lein fwy nag un sesiwn iddynt. Os oes mwy nag un sesiwn yn cael ei chynnal i arholiad ar-lein, rhaid i'r myfyrwyr ddilyn y cyfarwyddyd penodol a roddir gan yr adran academaidd ynglŷn â'r sesiwn benodol i'w chymryd. Cofiwch os oes mwy nag un sesiwn yn cael eu defnyddio i rai arholiadau ar-lein y gall union amser dechrau rhai o'r sesiynau fod yn wahanol i'r amser dechrau a nodir ar amserlen yr arholiadau. Mewn achosion o'r fath, mae'n arbennig o bwysig i fyfyrwyr gadw at yr amser a roddir iddynt gan eu hadran academaidd.

3. Trefn baratoi'r amserlen arholiadau

- Yn achos pob carfan o fyfyrwyr, caiff yr amserlenni eu paratoi o'r dechrau bob semester er mwyn sicrhau na cheir gwrthdaro (h.y. nid yw'r un dyddiadau'n cael eu defnyddio flwyddyn ar ôl blwyddyn). Y rheswm am hyn yw bod y cyfuniadau o gynlluniau a modiwlau sydd ar gael i fyfyrwyr yn gallu amrywio ymhob sesiwn academaidd.
-
- Mae'r llinell amser ar gyfer paratoi'r amserlenni hefyd yn cydnabod bod gan fyfyrwyr hawl i newid eu modiwlau hyd at bedair wythnos ar ôl dechrau bob semester, ac ar ôl pedair wythnos o'r semester os yw'r Gyfadran yn cymeradwyo: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/registration/changing/>

4. Disgwyliadau myfyrwyr

Wrth baratoi amserlenni'r arholiadau, rydyn ni'n anelu i sicrhau:

- Na fydd gan y mwyafrif llethol o fyfyrwyr ddau arholiad ar yr un dydd.
- Na fydd gan y mwyafrif o fyfyrwyr arholiad yn y prynhawn ar un diwrnod ac yna arholiad yn y bore drannoeth.
- Nid yw'r Brifysgol yn cynnal arholiadau ar ddydd Sadwrn. Mae hyn yn golygu fod gan bob myfyriwr o leiaf ddau ddiwrnod i orffwys ac adolygu ymhob wythnos o'r cyfnod arholiadau.
- Rydyn ni'n ceisio gwneud yn sicr nad oes gan y mwyafrif o fyfyrwyr fwy na thri arholiad o fewn pum diwrnod. Ond, oherwydd cymhlethdod rheolau cynlluniau gradd myfyrwyr a chyfuniadau modiwlau, bydd gan rai myfyrwyr arholiadau ar ddyddiau olynol. Mae hyn yn hollol arferol yn y rhan fwyaf o brifysgolion Prydain ac mae'n arbennig o wir yn achos myfyrwyr sy'n cymryd modiwlau deg credyd.
- Er mwyn osgoi siom, dylai myfyrwyr gofio nad oes modd i bob myfyriwr gael diwrnod neu fwy o fwlch rhwng pob arholiad. Ar y sail honno, ni fyddem yn gallu trefnu amserlen heb wrthdaro ynddi. Mae angen i fyfyrwyr fod yn ymwybodol mai canllawiau yr ydym yn ceisio'u cyflawni yw'r rhain yn hytrach na gwarantau.
- Ar ben hynny, mae'r canllawiau'n gymwys yn bennaf i amserlenni arholiadau semester un a semester dau.
- Mae adborth myfyrwyr yn awgrymu na fyddai'r mwyafrif ohonynt yn dymuno i ddyddiadau arholiadau ailsefyll gael eu hystyried dros nifer o ddyddiau. Y rheswm am hyn yw bod rhaid i fyfyrwyr sy'n teithio i Aberystwyth ar gyfer yr arholiadau hyn ystyried costau llety a theithio. Am y rheswm hwn, nid ydym yn ceisio ymestyn dyddiadau'r arholiadau ailsefyll mis Awst dros nifer o ddyddiau yn yr un modd ag arholiadau semester un a semester dau.
- Mae'r Swyddfa Amserlenni yn crynhoi metrigau amserlenni arholiadau blynyddol sy'n cofnodi'r targedau a esboniwyd uchod. Rydym yn rhoi'r ffigurau hyn i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth a Swyddog Materion Academaidd Undeb y Myfyrwyr. Wrth gofnodi nifer yr arholiadau cefn-gefn, nid ydym yn cynnwys y nifer fach o arholiadau a gynhelir ar ddyddiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw gan yr adrannau academaidd.

5. Rhagor o wybodaeth

Mae canllawiau i fyfyrwyr ynglŷn ag arholiadau i'w cael yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/exam-handbook/>. Mae Canllawiau ynglŷn ag Amgylchiadau Arbennig a Threfn Apeliadau'r Brifysgol i'w gweld yn: <https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/ug-issues/exam-assess/>

6. Adborth myfyrwyr ar drefn creu amserlenni'r arholiadau

Os oes gan fyfyrwyr adborth ynglŷn â'r drefn o baratoi amserlenni'r arholiadau mae croeso iddynt gysylltu â'r Swyddfa Amserlennu attstaff@aber.ac.uk. Gall myfyrwyr hefyd gysylltu â swyddog arholiadau'r adran: <https://www.aber.ac.uk/cy/timetable/exam-officers/> neu gyflwyno adborth trwy gyfrwng Ffurflen Sylwadau Dy Lais ar Waith: <https://www.aber.ac.uk/cy/student/your-voice-matters/tell-us/>

Y Tîm Amserlennu

attstaff@aber.ac.uk / 01970 62 **8771**